**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Cymwysterau Cymru (Cosbau Ariannol) (Penderfynu ar Drosiant) 2019**

Craffu Technegol

Mae elfen craffu technegol yr adroddiad drafft yn cyfeirio at un pwynt drafftio, sef nad yw'r Rheoliadau drafft yn gwbl glir o ran ystyr "mis" yn rheoliad 4.

Rydym yn nodi'r ymrwymiad a wnaed gan y Cwnsler Cyffredinol yn y llythyr dyddiedig 9 Chwefror 2018 i geisio defnyddio technegau megis troednodiadau yn fwy pan na fo diffiniad wedi ei gynnwys yn yr is-ddeddfwriaeth ei hun. Fodd bynnag, yn yr un ymateb, cynghorodd y Cwnsler Cyffredinol *"… os bwriedir i air fod â'r ystyr gyffredin sydd iddo mewn geiriadur, neu os yw'n amlwg o'r cyd-destun at beth y mae'r term yn cyfeirio, gallai cynnwys diffiniad beri tipyn o ddryswch"*. Rydym yn ystyried, o dan yr amgylchiadau hyn, fod ystyr mis (h.y. mis calendr) yn ddigon clir o gyd-destun y rheoliadau. Fel yr ydych wedi ei amlygu'n gywir, dangosir hyn gan y cyfeiriadau at "*diwrnod olaf y mis*" sy'n nodi'n glir fod mis i olygu mis calendr.

Hefyd, mae'r geiriad a'r dull o gyfrifo trosiant corff dyfarnu wedi bodoli ers cyfnod sylweddol o amser heb unrhyw broblem amlwg (gweler Gorchymyn y Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau (Penderfynu ar Drosiant ar gyfer Cosbau Ariannol) 2012 yn Lloegr a'r rheoliadau blaenorol a oedd mewn grym yng Nghymru - Gorchymyn Personau Cydnabyddedig (Cosbau Ariannol) (Penderfynu Trosiant) (Cymru) 2012). Felly, byddai cyrff dyfarnu, sy'n gweithredu yng Nghymru ac yn Lloegr, yn gyfarwydd â'r geiriad hwn a bod "mis" yn golygu mis calendr.

Felly, ystyrir nad oes angen diwygiad i ymdrin â'r pwynt craffu technegol hwn.

Craffu ar Rinweddau

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

Nodir y pwynt. Fodd bynnag, byddai Llywodraeth Cymru yn gwneud y pwynt a ganlyn:

- Gwnaed penderfyniad polisi i ganiatáu disgresiwn eang i Gymwysterau Cymru, fel rheoleiddiwr annibynnol cymwysterau yng Nghymru, wrth osod cosbau ariannol ar gyrff dyfarnu. Gan fod y rheoliadau yn cael eu gwneud yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, rydym yn ystyried bod y Cynulliad yn cael digon o gyfle i drafod y ffordd y gosodir cosbau a chraffu arni.

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

Nodir y pwynt.

3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi’r materion y mae’r Pwyllgor wedi awgrymu y dylid eu hegluro a chaiff y Memorandwm Esboniadol ei dynnu’n ôl a’i ddiwygio cyn ei ailosod.